


Rhif: 36

Enw'r Ardal
Cymeriad Morwedd:


Dyfroedd arfordirol Ystgabwll



ACM36:Dyfroedd Arfordirol Ystgabwll



Yr olygfa at Ben Gofan o Benrhyn Ystgabwll



Traeth Aber Llydan yn edrych tuag at Graig yr Eglwys



Ceir Ystgabwll



Bae Barafundle

Disgrifiad Cryno

Arfordir calchfaen sy'n wynebu'r de-ddwyrain i'r dwyrain o Ben Gofan gyda chlogwyni, twyni, traethau a childraethau sy'n boblogaidd ar gyfer cerdded a dringo. Mae'r ddau brif draeth yn boblogaidd hefyd. Mae yna fynediad cyfyngedig i'r arfordir, gydag un angorfa, ac felly mae yna rywffaint o weithgarwch cychod hamdden, allan o Ddinbych-y-pysgod yn bennaf.

Nodweddion Allweddol

- Arfordir sy'n wynebu'r de-ddwyrain, o glogwyni calchfaen serth tua 30m o uchder gyda childraethau bach a thraethau tywodlyd hwnt ac yma.
- Glaswelltir twyni, glaswelltir arfordirol sy'n gorchuddio'r tir ynghyd â phorfa wedi'i gwella yn ôl o'r arfordir a choed a phrysg cyfyngedig mewn ardaloedd cysgodol yn y dyffryn.
- Cyfyngir yr anheddau at ychydig o ffermydd traddodiadol.
- Meysydd parcio poblogaidd yn rhoi mynediad i draeth Aber Llydan a thraethau Ystgabwll/Barafundle, Llwybr yr Arfordir gyda llwybrau troed yn cysylltu gyda Llynnoedd Bosherton.
- Mae dringo'n boblogaidd ar y clogwyni ac mae yna gaiacio a pheth mordeithio modur a hwyliau o amgylch yr arfordir sydd wedi ei amddiffyn rhag wyntoedd gorllewinol, yn enwedig ym Mae Barafundle.
- Perthynas arbennig rhwng llynnoedd Bosherton tua'r tir a thraeth Aber Llydan yn gyferbyniaeth weledol a synhwyrdd ac yn wledd i'r llygaid.
- System twyni nodedig Twyni Ystgabwll fel tirwedd archeolegol gladdedig ar gopa'r clogwyn ac yn rhedeg i lawr i mewn i ddyffryn gerllaw.
- Golygfeydd eang, heb eu difetha, o'r pentiroedd i'r môr agored, at Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint, ac ar hyd yr arfordir, a golygfeydd sianelog fel y rhai o draeth Aber Llydan i Graig yr Eglwys.
- Ymdeimlad o lonyddwch mewn mannau, yn enwedig tu allan i'r prif dymor, i ffwrdd oddi wrth Faes Castellmartin.

Nodweddion Ffisegol

Mae'r pentir creigiog sy'n wynebu'r de-ddwyrain (40-80m UDO) o Benrhyn Sain Gofan i Geir Ystgabwll yn cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd sy'n taro dwyrain-gorllewin, gyda chlogwyni arfordirol serth i fertigol yn eu ffinio. Mae'r pentiroedd wedi eu sgolpio yn faeau wrth geg yr aberoedd (e.e. Aber Llydan a Bae Barafundle). Mae yna chwythdyllau ac ogofau ym Mhenrhyn Ystgabwll. Oddi ar yr arfordir mae yna nodweddion erydiadol fel staciau craig (e.e. Craig yr Eglwys i'r de-orllewin) a bwâu (e.e. Barafundle). Mae twyni uchel yn gorwedd ger traeth Aber Llydan ar lethrau'r dyffryn i'r de-orllewin o Bosherton, ac yn Nhwyni Ystgabwll. Ar ymylon y clogwyni Calchfaen, ceir glannau creigiog (54%), ond mae gan y baeau lannau tywodlyd (46%).

Mae erydiad y gwynt a'r tonnau'n gweithredu trwy gyrathiad, toddiant, athreuliad a symudiadau hydrologig.

Mae'r tywod graeanog sydd wedi ei ddyddodi ar lawr y môr yn gorchuddio'r Calchfaen ar oledd isel i ganolig ($<10^0$) oddi ar y lan. Mae'r moroedd yn agored i wyntoedd uchel a phwysau gan y tonnau. Mae'r cerhyntau llanwol wedi eu gosod yn ddwyreiniol ac yn orllewinol ar hyd Môr Hafren. Mae llifau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, ac mae eger llanw yn ymestyn allan tu allan i Benrhyn Sain Gofan. Mae'r llif llanwol ym Mhenrhyn Ystgabwll yn gallu cyrraedd 3 milltir fôr gan achosi geirwyau môr ar adegau. Amrediad y llanw yw 6.6m.

Mae'r môr a'r ardal rynglanwol yn rhan o ACA Sir Benfro Forol. Mae mwyafrif yr arfordir yn ACA (fel rhan o Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru). Mae'r arfordir i'r gogledd yn rhan o SoDdGA Cei Ystgabwll i Drwyn Trewent ac mae'n Ardal Bwysig ar gyfer Adar fel a ddiffiniwyd gan yr RSPB. Mae Twyni Ystgabwll a'r arfordir a'r ardaloedd o amgylch yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac yn SoDdGA. Mae Arfordir Castellmartin i'r de-orllewin yn AGA ac yn SoDdGA. Mae'r rhywogaethau nodedig yn cynnwys y frân goesgoch, y wiber, nadroedd y gwair a'r slorwm, gyda chytrefi sylweddol o adar y môr ar y clogwyni.

Dominyddir gorchudd y tir gan Dwyni Ystgabwll, sy'n cynnwys llwyfandir o dywod a chwythwyd gan y gwynt ar lethrau clogwyni môr calchfaen uchel ac sy'n rhedeg i lawr i mewn i'r dyffryn i'r gorllewin. Mae glaswelltir arfordirol yn ymestyn arno i Benrhyn Ystgabwll ac ar hyd ymylon y clogwyn i'r gogledd a'r de. Tu ôl i hyn, mae yna gaeau bugeiliol gyda ffiniau isel i'r caeau gyda choed a phrysg wedi eu cyfyngu at lethrau mwy cysgodol y dyffryn.

Dylanwad diwylliannol

Mae yna sawl anheddiad a safle defodol pwysig o gynhanes yn Nhwyni Ystgabwll sy'n enghraifft o dirwedd archeolegol gladdedig. Mae caeadele wedi cynhyrchu tipyn o fflint wedi'i weithio, ynghyd â sorod haearn ac, o bosib, troellennau cogeiliau. Gellir ei gysylltu at batrwm ehangach o gaeadele cae creiriol. Mae grŵp o safleoedd defodol o gynhanes wedi eu lleoli o amgylch maen hir Coetan y Diafol, ble mae yna dir gwastad rhwng y twyni a'r tir o amgylch.

Ystgabwll oedd sedd teulu'r Campbell (Arglwyddi Cawdor yn yr Alban), plasty o'r 18^{fed} ganrif a ehangwyd yn ddiweddarach, ar is-grofft tŷ o gyfnod llawer cynharach. Fe'i dymchwelyd ym 1963. Erys ei systemau cae nodedig a'i ffermdai. Mae Cei Ystgabwll yn arwydd o ddefnydd hanesyddol diweddar yr ardal cymeriad hon gan gynnwys symud calchfaen o'r chwarel i'r odyrn a dod â nwyddau moethus at ystad Llys Ystgabwll.

Mae rhan o'r ardal hon yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Ystgabwll.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE533 (maes tanio): cymuned: Ystgabwll (mae hyn hefyd yn dod o dan ACM35)
- PE367 (Grŵp Cytiau Twyni Ystgabwll): cymuned: Ystgabwll
- PE316 (caer bentir): cymuned: Castellmartin
- PE468 (crug crwn): cymuned: Castellmartin

Roedd teulu'r Lort o Ystgabwll yn smyglwyr, hynafiaethwyr a chefnogwyr dwy ochr y Rhyfel Cartref. Darlun Julius Caesar Ibbetson *The Guide to the Stackpole Scenery pointing to Stack Rock Pembrokeshire* (olew ar gyfnod a dyfrlliw ac inc du, 1793) yw un o'r golygfeydd arfordirol mwyaf amlwg o'r ardal o ran topograffeg o'r cyfnod hwn. Gwelir llongddrylliadau i'r gorllewin a'r de o Benrhyn Sain Gofan - Florrie, a suddodd ym 1918 a'r Otway a suddodd ym 1982.

Yr unig anheddiad yw ychydig o ffermydd ychydig yn ôl o'r arfordir. Gellir cael mynediad i gerbydau a lle i barcio yn Aber Llydan ac yng Nghei Ystgabwll yn unig. Mae'r cyntaf hefyd yn gysylltiedig â Llynnoedd Bosherton ac felly mae'n daith boblogaidd ar droed o faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tua'r tir. Mae Traeth Barafundle ac Aber Llydan yn boblogaidd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol ar y traeth. Mae cerdded yr arfordir a gwyllo bywyd gwylt yn boblogaidd ar hyd copa'r clogwyni ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro, gan ddefnyddio Penrhyn Ystgabwll fel cyrchfan yn aml. Mae mynediad at Ben Gofan yn gyfyngedig pan fydd tanio yng Nghastellmartin. Maen nhw'n dringo o amgylch Pen Gofan ac Ystgabwll a gellir gweld tystiolaeth glir yn Ystgabwll o'r llwybrau sydd wedi treulio a'r pegiau dur ar hyd copa'r clogwyn. Mae yna lithrfa yng Nghei Ystgabwll hefyd, ond mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfyngu ar

fynediad ac mae hwn yn harbwr sychu bach iawn a dim ond un cwch sy'n dal cimwch mewn potiau sy'n ei ddefnyddio fel arfer.

Mae deifio a snorclo yn boblogaidd oddi ar draeth Barafundle, Penrhyn Ystafbwl ac Aber Llydan. Mae caiacio'n parhau o amgylch yr arfordir ac maen nhw'n syrffio oddi ar Aber Llydan. Mae yna lwybr mordeithio hwyliu sy'n cael defnydd helaeth oddi yma o amgylch yr arfordir i'r gorllewin i Aberdaugleddau [pan fydd cyfyngiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn caniatáu hynny] a Dinbych-y-pysgod. Mae mordeithio modur a hwyliu yn boblogaidd yma o gymharu â'r gorllewin gyda llefydd da i angori ym Mae Barafundle.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys pysgota sâ'n ar y traeth a rhwydau traeth, rhwydau wedi eu gosod, dal gwichiaid moch, cimwch a chrancod mewn potiau a'r posibilrwydd o fân-dreillio estyllod. Defnyddir rhan orllewinol yr ardal fel rhan o ardaloedd ymarfer/meysydd tanio Castellmartin a gan ardal Maenorbŷr i'r dwyrain sy'n cael defnydd llai dwys.

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae gan yr arfordir undod cryf gyda chlogwyni calchfaen llwyd cyson sy'n weddol uchel, tua 30m, gyda thraethau tywodlyd a childraethau dwfn yn torri i mewn iddynt. Mae'r arfordir ar raddfa ganolig i fawr gyda'r pentiroedd yn Sain Gofan ac Ystafbwl ag ymdeimlad agored ond yn cysgodi'r arfordir sy'n ymyrryd, i raddau, rhag wyntoedd gorllewinol. Mae yna amrywiaeth yng ngorchudd y tir gyda thwyni tywod, glaswelltir a phrysg yn erbyn y clogwyni. Mae yna olygfeydd eang o'r tir allan at fôr sydd heb ei darfu na heb ei ddifetha i'r de, at Ynys Wair, arfordir Gogledd Dyfnaint ac Ynys Bŷr i'r dwyrain. Mae golygfeydd bendigedig wedi eu fframio yn bosib o'r childraethau a'r traethau fel y rhai o Aber Llydan ble mae Craig yr Eglwys yn nodwedd. O'r dŵr, y nodweddion mwyaf amlwg yw Pen Gofan a Phenrhyn Ystafbwl. Mae'n anodd canfod Cei Ystafbwl ond mae'n gorwedd ger y gyffordd amlwg rhwng y clogwyni calchfaen gwyn i'r gorllewin a'r clogwyni tywodfaen coch i'r dwyrain [ACM 37].

Mae'r ardaloedd yn heddychlon, i raddau, i ffwrdd oddi wrth y meysydd parcio a'r traethau, ond mae'r ardal hon yn boblogaidd ymhlith cerddwyr, dringwyr a defnyddwyr y traeth felly, yn aml, mae yna bobl o amgylch, ac mae hyn yn gostwng yr ymdeimlad o lonyddwch. Mae'r strwythurau ar Ben Gofan yn difrio. Ond, erys harddwch naturiol yr arfordir hwn. Mae yna arogl cryf o'r môr ac mae'r twyni a'r glaswelltir lled-naturiol ar hyd yr arfordir yn rhoi ymdeimlad naturiol.

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol, dringo a hamdden traeth, at dreftadaeth naturiol ar ffurf buddiannau gwarchod natur yr arfordir sydd heb ei ddifetha a gwyllo bywyd gwylt, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas ag Ystad Ystafbwl a nodweddion hanesyddol eraill a chysylltedd â natur ar hyd yr arfordir godidog hwn.

Rhesymau dros newid

| Crynodeb | Rhesymau allweddol dros newid | | | | | | | |
|--|-------------------------------|----------------------------------|-------------------|--------------------------------------|----------------------------|---------------------|-----------------------|-------------|
| <p>Erydiad arfordirol araf y clogwyni creigiog. Yng nghynllun rheoli'r traethlin mae'n dweud 'gwneud dim byd'.</p> <p>Pwysau ymwelwyr mewn ardaloedd parcio ceir ac ar lwybr yr arfordir gan gynnwys sathru ar y llystyfiant ar gopa'r clogwyni ac ar y twyni.</p> <p>Treulio'n amlwg ar y clogwyni o ganlyniad i ddringo gyda phinnau dur ar gopa'r clogwyni (Penrhyn</p> | Rhinweddau Arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Ynni'r tir mawr neu fwynau | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| | Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|--|--|--|--|--|---|--|--|---|
| Ystagbwl). Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio tir tua'r dwyrain a'r gorllewin. | Diffeithwch | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | Allwedd | | | | | | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig |
| Sensitifeddu allweddol | | | | | | | | |
| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | | | | | Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd | | | |
| <p>Morlin danheddus, serth gyda chlogwyni a childraethau yn ffurfio ymyl arfordirol naturiol.</p> <p>Cymeriad bugeiliol gwledig y gefnfro a'r twyni, gyda ffurfiau adeiledig cyfyngedig iawn.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.</p> <p>Buddiannau'r arfordir o ran gwarchod natur, y glaswelltir a'r twyni</p> <p>Perthynas arbennig rhwng llynnoedd Bosherton tua'r tir a thraeth Aber Llydan.</p> <p>System twyni Twyni Ystagbwl sy'n nodedig ac o bwysigrwydd hanesyddol.</p> <p>Golygfeydd eang, heb eu difetha, o'r pentiroedd i'r môr agored ac ar hyd yr arfordir a golygfeydd sianellog fel y rhai o draeth Aber Llydan i Graig yr Eglwys.</p> <p>Ymdeimlad o lonyddwch mewn mannau, yn enwedig tu allan i'r prif dymor, i ffwrdd oddi wrth faes Castellmartin.</p> | | | | | <p>Presenoldeb meysydd parcio poblogaidd sy'n rhoi mynediad i draeth Aber Llydan a thraethau Ystagbwl/Barafundle.</p> <p>Mae dringo'n boblogaidd ar y clogwyni.</p> <p>Meysydd ac ardaloedd hyfforddi'r Weinyddiaeth Amddiffyn gerllaw.</p> | | | |